

Archwilio Ein Byd

Dathliadau



Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon

Archwilio Ein Byd

Dathliadau

**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan
Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y
Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei
atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn
unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig,
mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands
Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

YNGHYLCH Y GYFRES ARCHWILIO EIN BYD

Am beth mae'r gyfres?

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwrando ar storïau eu ffrindiau, ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well. Gyda'i gilydd, maen nhw'n archwilio'r themâu poblogaidd, sef dathliadau, fi fy hun ac eraill, adegau a thymhorau, teithiau, pobl arbennig, ac arwyddion a symbolau.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

Ar gyfer pwy mae'r gyfres?

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer plant iau a phlant hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae chwe llyfr stori yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol (Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd). Teitlau'r chwe llyfr stori yw:

Plant 3 – 5 oed

- Dathliadau
- Fi fy hun ac Eraill
- Adegau a Thymhorau

Plant 5 – 7 oed

- Teithiau
- Pobl Arbennig
- Arwyddion a Symbolau

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrdau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 154 o syniadau am weithgareddau a 11 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

Mynediad at adnoddau'r gyfres *Archwilio Ein Byd*

Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Yr Athro Leslie J Francis

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Libby Jones

Canolfan San Silyn, Wrecsam

Phillip Vernon

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Dysgwch am eich ardal leol, ac am ble y mae yn ddaearyddol
- Siaradwch am bwy rydych chi'n eu hadnabod yn eich ardal leol

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ewch ati i ymarfer canu 'Pen-blwydd Hapus' gyda'ch gilydd
- Gwnewch gerdyn pen-blwydd i Aled ac ysgrifennu 'Pen-blwydd hapus' y tu mewn iddo

Datblygiad iaith Gymraeg

- pen-blwydd hapus
- cacen

Datblygiad corfforol

- Smaliwch eich bod yn chwythu canhwylau ar gacen pen-blwydd
- Smaliwch fod yn falŵn sy'n cael ei chwythu, gan ddechrau'n fach iawn a fflat, ac yna'n mynd yn fwy ac yn fwy

Datblygiad creadigol

- Chwiliwch am enghreifftiau o gardiau pen-blwydd a dyluniwch lun eich hunan ar gyfer tu blaen cerdyn Aled
- Dyluniwch gacen pen-blwydd i chi eich hun neu ar gyfer rhywun rydych chi'n ei adnabod (**Gweithgaredd 1**)

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch ynghylch sut deimlad yw derbyn anrhegion a chardiau ar eich pen-blwydd
- Siaradwch ynghylch pam mae pobl yn dweud 'diolch' wrth iddyn nhw dderbyn anrhegion pen-blwydd

Datblygiad mathemategol


- Dywedwch faint yw oed Aled wedi i chi gyfrif y canhwylau ar ei gacen pen-blwydd
- Faint o ganhwylau fyddwch chi eu hangen ar eich cacen pen-blwydd nesaf?


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Dyluniwch gacen pen-blwydd





Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Meddylwch ynghylch pam mae enwau'n bwysig
- Gofynnwch gartref sut cawsoch chi eich enw

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Dywedwch eich enw llawn wrth y naill a'r llall, ac eglurwch sut cawsoch chi'r enw
- Ewch ati i ymarfer ysgrifennu eich enw ac enwau eich ffrindiau

Datblygiad iaith Gymraeg

- taid; tad-cu
- enw

Datblygiad corfforol

- Ceisiwch sillafu eich enw eich hun gan ddefnyddio eich corff i ffurfio siâp pob un o'r llythrennau
- Chwaraewch gêm sy'n defnyddio enwau

Datblygiad creadigol

- Ysgrifennwch eich enw mewn llythrennau mawr a'i addurno'n hardd ar gyfer arddangosfa dosbarth
- Gwnewch gollage gan ddefnyddio enwau plant eich dosbarth

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol


- Chwiliwch am enghreifftiau o enwau plant o wahanol wledydd y byd a'u cysylltu â thraddodiadau crefyddol
- Ewch ati i ymarfer ynganu enwau o wahanol wledydd y byd yn gywir

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch y llythrennau yn eich enw ac yn enwau plant eraill sydd yn eich dosbarth
- Cofnodwch y data ar ffurf graff bloc (**Gweithgaredd 2**)


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol







Cyfrif y llythrennau yn ein henwau

Gan ddefnyddio'r templed, lluniwch eich graff bloc chi eich hunan. Defnyddiwch liwiau neu luniau i ddangos faint o blant sydd ag enwau gyda gwahanol nifer llythrennau ynddyn nhw.



Enghraifft





Tudalen 8



Tudalen 9

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Meddyliwch ynghylch pam mae pobl yn hoffi dathlu eu pen-blwydd
- Holwch ynghylch ble mae eglwysi yn eich ardal chi

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am barti pen-blwydd rydych chi wedi bod ynddo
- Dywedwch wrth y naill a'r llall pa aelodau o'ch teulu a pha ffrindiau yr hoffech chi eu gwahodd i'ch parti pen-blwydd

Datblygiad iaith Gymraeg

- pen-blwydd
- dathlu

Datblygiad corfforol

- Meimiwch chwarae gêm y byddech chi fel arfer yn ei chwarae mewn parti, fel, er enghraifft, 'Pasio'r Parsel'
- Chwaraewch y gêm barti 'Cerfluniau Cerddorol'

Datblygiad creadigol

- Chwiliwch am symbolau Cristnogol a'u defnyddio ar gerdyn pen-blwydd i Peter
- Dyluniwch wahoddiad i barti pen-blwydd (**Gweithgaredd 3**)


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Pam rydyn ni'n rhoi cardiau ac anrhegon i bobl ar eu pen-blwydd?
- Gan ddefnyddio'r rhyngrwyd, archwiliwch y ffyrdd y mae pobl o wahanol wledydd yn dathlu eu pen-blwydd

Datblygiad mathemategol

- Holwch ynghylch pa fis y mae pob plentyn yn eich dosbarth yn dathlu ei ben-blwydd
- Trefnwch y wybodaeth mewn ffordd briodol ar gyfer arddangosfa dosbarth




Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Dyluniwch wahoddiad i barti pen-blwydd

Dwi'n cael fy mhen-
blwydd!





Tudalen 10



Tudalen 11

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth sy'n digwydd mewn bedydd plentyn bach
- Edrychwch ar luniau o fabanod yn cael eu bedyddio

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl gwasanaeth bedydd, gan gymryd eich tro i fod yn ficer
- Gan ddefnyddio'r daflen gweithgaredd, ceisiwch baru'r lluniau bedydd gyda'r gair neu'r frawddeg gywir (**Gweithgaredd 4**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- ficer
- gwisg wen

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer arllwys dŵr yn ofalus dros ben dol
- Ewch ati i ymarfer cario jwg o ddŵr i lenwi'r bedyddfaen yn ofalus heb gollu dim o'r dŵr

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch a gwnewch gardiau bedydd
- Gan ddefnyddio lluniau o gylchgronau, gwnewch gollage i ddangos yr holl wahanol ffyrdd rydyn ni'n defnyddio dŵr

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Holwch a ydych chi neu unrhyw un yn eich dosbarth wedi cael ei fedyddio/ei bedyddio
- Dysgwch am arwyddocâd dŵr yn y gwasanaeth bedydd

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch y nifer o blant yn eich dosbarth neu flwyddyn ysgol sydd wedi cael eu bedyddio
- Amcangyfrifwch ac yna mesurwch sawl llond gwydr o ddŵr sydd ei angen i lenwi digon ar y bedyddfaen ar gyfer bedydd




Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Gêm paru bedydd

Ydych chi'n gallu paru'r lluniau gyda'r gair neu'r frawddeg gywir?

cannwyll		Mae dŵryn cael ei arllwys dros ben y baban.
bedyddfaen		Mae'r baban yn gwisgo gwisg wen.
gwisg wen		Mae'r rhieni'n cael kannwyll arbennig i'r baban.
dŵr		Mae'r baban yn cael ei fedyddio yn y bedyddfaen.
enw		Mae'r ficer yn dweud enw'r baban yn uchel.



Tudalen 12



Tudalen 13

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch ble mae synagogau yn eich ardal chi
- Dysgwch am y bobl sy'n mynd i'r synagog a beth maen nhw'n ei wneud yno

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Mewn parau, cymrwch eich tro i ddewis cerdyn o'r pentwr ac yna siaradwch â'ch partner am yr hyn sydd ar y cerdyn rydych chi wedi ei ddewis (**Gweithgaredd 5**)
- Siaradwch ynghylch beth ydych chi'n gallu ei weld yn lluniau'r llyfr stori

Datblygiad iaith Gymraeg

- parti
- synagog

Datblygiad corfforol

- Dychmygwch eich bod yn gwneud eich hun yn barod i fynd i barti pen-blwydd Rachel – smaliwch newid i'ch dillad parti, gwneud eich gwallt, a lapio'r anrheg yn ofalus
- Chwaraewch gêm awyr agored y gallech chi ei chwarae mewn parti

Datblygiad creadigol

- Gwnewch gacennau bach ar gyfer y parti pen-blwydd a'u haddurno gydag eising lliw
- Holwch ynghylch y cap (kippah) mae Nathan yn ei wisgo yn y llun, a gwnewch un er mwyn ei wisgo

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch i ymweld â'ch synagog leol a chwrdd â'r rabi yno
- Holwch y rabi am ddathliadau eraill sy'n digwydd yn y synagog

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch y bobl yn y llun ar dudalen 13 – pe bydden nhw i gyd yn cael un gacen fach bob un, faint o gacennau fydddech chi eu hangen i gyd? Pe bydden nhw i gyd yn cael dwy gacen fach bob un, faint o gacennau fydddech chi eu hangen i gyd?
- Mesurwch y cynhwysion sydd ei angen i wneud cacennau bach




Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Y parti pen-blwydd

Defnyddiwch y daflen hon i wneud cardiau unigol ynglŷn â pharti pen-blwydd. Cymerwch eich tro i godi cerdyn a siarad am y peth gyda phartner.

gemmau		bwydydd parti
		
		balwnau
cardiau pen-blwydd		bagiau parti



Tudalen 14



Tudalen 15

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch y seremoni Iddewig ar gyfer enwi merched
- Holwch a gafodd eich enw chi ei ddewis a'i gadw'n gyfrinach cyn i chi gael eich geni. Pam rydych chi'n meddwl bod rhai pobl yn gwneud hynny?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Gan gymryd eich tro, ewch ati i ymarfer dweud enwau eich gilydd yn uchel fel y gwnaeth tad Rachel pan oedd hi'n faban
- Lluniwch eich bendith eich hun ar gyfer baban, a'i adrodd yn uchel i'r grŵp rydych chi'n gweithio ynddo (**Gweithgaredd 6**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- bendith
- Duw

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer eistedd yn dawel a llonydd iawn tra rydych chi'n gwrandao ar aelodau eich grŵp yn darllen eu bendith
- Ewch ati i ymarfer rholio a dadrolio sgrôl Torah â pharch

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch forder addurnedig ar gyfer eich bendith gyda phatrymau a lluniau priodol ar gyfer baban (**Gweithgaredd 6**)
- Casglwch luniau o blant y dosbarth pan oedden nhw'n fabanod, a'u harddangos

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am y Torah a pham y mae'n bwysig i Iddewon
- Meddyliwch ynghylch pa lyfr sy'n bwysig i chi, a pham

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch faint o dudalennau sydd yn eich llyfr arbennig chi. Holwch ynghylch llyfr pwy yn y dosbarth sydd â'r nifer fwyaf o dudalennau ynddo a llyfr pwy sydd â'r nifer lleiaf o dudalennau ynddo
- Holwch ynghylch pa enwau babanod sydd fwyaf poblogaidd ar hyn o bryd yng Nghymru neu Loegr, a cheisiwch gymharu'r rhain ag enwau'r plant yn eich dosbarth

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Bendith i'r baban

Ysgrifennwch fendith i faban. Defnyddiwch y lluniau i'ch helpu ddylunio border addurnedig i'ch bendith i'r baban.

Diolch am y baban



Boed i Dduw ei fendithio/ei
bendithio

a'i gadw/ei chadw

Boed i'w fywyd/bywyd fod yn

a

Rydyn ni'n dy garu





Tudalen 16



Tudalen 17

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch ble mae mosgiau yn eich ardal chi
- Dysgwch am rai o'r pethau mae pobl yn ei wneud mewn mosg

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Edrychwch ar wahanol fathau o gyfarchion pen-blwydd o gasgliad o wahanol gardiau pen-blwydd, ac yna lluniwch gyfarchion eich hun
- Dewiswch un cyfarchiad a'i ysgrifennu'n ddaclus fel byddech chi'n ei wneud ar gerdyn pen-blwydd

Datblygiad iaith Gymraeg

- bwyd
- mosg

Datblygiad corfforol

- Dychmygwch eich bod ym mharti pen-blwydd Salma. Smaliwch fownsio i fyny ac i lawr ar y castell gwynt, heb daro yn erbyn eich gilydd
- Smaliwch fod yn falŵn sy'n cael ei chwythu o gwmpas gan y gwynt

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch a gwnewch addurniadau i'w hongian ar y wal ym mharti Salma
- Holwch ynghylch y sgarffiau mae'r merched yn eu gwisgo am eu pen yn y lluniau a gwnewch un i'w roi am eich pen eich hun

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Archwiliwch y gwahanol ffyrdd y mae pobl yn dathlu eu pen-blwydd mewn gwahanol wledydd
- Archwiliwch y gwahanol fathau o fwydydd mae pobl yn eu bwyta yn eu partiön. Pa fath o fwydydd ydych chi'n eu cael? Pa fath o fwyd ydych chi'n meddwl y byddai Salma'n ei gael yn ei pharti hi?

Datblygiad mathemategol

Dosbarthwch y gwahanol fwydydd yn y lluniau ar y daflen gweithgaredd yn ôl y math. Fe allai hyn fod yn ôl lliw, neu sawrus/melys ac ati

(Gweithgaredd 7)

- Cyfrifwch sawl llond plât o fwyd sydd yno i gyd

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol





Bwyd parti

Dosbarthwch y gwahanol fwydydd sydd yn y llun yn ôl eu math (er enghraifft, yn ôl lliw, sawrus, melys)



Sawl llond plât o fwyd ydych chi'n gallu eu cyfrif?

Faint o lolipops sydd yno?



Tudalen 18



Tudalen 19

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth mae rhoi arian i elusen yn ei olygu a dysgwch am wahanol fathau o elusennau (**Gweithgaredd 8**)
- Siaradwch ynghylch pa elusennau y byddech chi'n rhoi arian iddyn nhw, a pham

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Meddyliwch am rai cwestiynau yr hoffech chi eu gofyn i dad Salma
- Siaradwch am sut rydych chi'n meddwl y byddai tad Salma'n eu hateb

Datblygiad iaith Gymraeg

- cartref
- pen

Datblygiad corfforol

- Actiwch seremoni enwi Salma. Meddyliwch pa mor ofalus y byddai angen i chi fod wrth i chi smalio eillio pen Salma pan oedd hi'n faban
- Tyllwch dwll bach yn nhir yr ysgol a smaliwch gladdu gwallt Salma'n faban ar ôl iddo gael ei eillio

Datblygiad creadigol

- Cyfansoddwch gân neu bennill er mwyn eich helpu i gofio beth sy'n digwydd mewn seremoni enwi Fwslimaidd
- Addurnwch yr enw 'Salma' i wneud iddo edrych yn hardd

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch fwy am arferion enwi Mwslimaidd, a holwch ynghylch pam mae pen y baban yn cael ei eillio
- A wnaeth eich teulu ddilyn unrhyw arferion arbennig pan gawsoch chi eich enwi?

Datblygiad mathemategol

- Casglwch nifer o wahanol eitemau baban a chanfod beth yw pwysau pob un ohonyn nhw
- Pa un yw'r ysgafnaf a pha un yw'r trymaf?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Dysgu am elusennau

Mae pobl yn rhoi arian i elusennau fel y gallwn ni helpu cymaint o bobl ac anifeiliaid ag a allwn ni. Rydyn ni'n gwneud hynny trwy roi bwyd, lloches ac amddiffyniad iddyn nhw, sydd i gyd yn costio arian

Elusen blant



Rydyn ni'n helpu plant sy'n sâl

Elusen anifeiliaid



Rydyn ni'n helpu anifeiliaid sy'n cael eu cam-drin

Elusen Fwslimaidd



Rydyn ni'n helpu pobl sy'n dioddef

Elusen Gristnogol



Rydyn ni'n helpu pobl sy'n dlawd



Tudalen 20



Tudalen 21

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Dysgwch am y wlad ble dechreuodd y grefydd Hindŵaeth
- Holwch ynghylch ble mae temlau Hindŵaidd yn eich ardal chi

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ewch ati i ymarfer dweud yr enwau Rajeev a Meena
- Ysgrifennwch enwau Rajeev a Meena yn daclus

Datblygiad iaith Gymraeg

- ffrindiau
- templ

Datblygiad corfforol

- Yn aml, mae gan demlau Hindŵaidd gromen ar y top. Ceisiwch ffurfio siâp cromen gyda'ch corff
- Fel arfer, mae gan demlau Hindŵaidd gloch i bobl ei chanu wrth iddyn nhw fynd i mewn. Smaliwch ganu cloch i roi gwybod i bobl eich bod yma

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Edrychwch ar rai lluniau o demlau Hindŵaidd ac yna lliwiwch lun y deml ar y daflen gweithgaredd. Meddyliwch yn ofalus am y lliwiau y byddwch chi'n eu defnyddio, a pham (**Gweithgaredd 9**)
- Chwiliwch am symbolau Hindŵaidd a'u defnyddio mewn cerdyn pen-blwydd ar gyfer Rajeev


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am bobl sy'n mynd i deml Hindŵaidd
- Edrychwch ar luniau o sut maen nhw'n gwisgo – holwch ynghylch sut mae pobl yn gwisgo mewn gwahanol wledydd a chymharu hynny â'r ffordd rydych chi'n gwisgo

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch y nifer o siapiau sêr cyfan sydd ar yr anrheg pen-blwydd ar dudalen 20
- Dyluniwch batrwm ailadroddus ar bapur y gallech chi ei ddefnyddio i lapio anrheg (fe allech chi geisio defnyddio taten neu sbwng i brintio patrwm, gan ddefnyddio paent lliwiau llachar)

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol






Teml Hindwâidd

Edrychwch ar luniau o demlau Hindwâidd.

- Lliwiwch y llun hwn o deml.
- Pa liwiau fyddwch chi'n eu defnyddio, a pham?





Tudalen 22



Tudalen 23

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Meddylwch am yr holl wahanol ffyrdd rydyn ni'n defnyddio dŵr
- Pam rydych chi'n meddwl bod dŵr yn bwysig iawn?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ewch ati i ymarfer gwneud synau priodol ar gyfer pob un o'r gwahanol ffyrdd rydyn ni'n defnyddio dŵr
- Cyfansoddwch gân neu bennill yn cynnwys y synau hyn

Datblygiad iaith Gymraeg

- dŵr
- tafod

Datblygiad corfforol

- Lluniwch ddawns i ddathlu'r gwahanol ffurfiau o ddŵr
- Lluniwch ddawns am Ganesh yn defnyddio eich breichiau

Datblygiad creadigol

- Gwnewch lun dyfrllyd gyda phaen a gwahanol fathau o bapur
- Gwnewch rywffaint o amrit


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Holwch ynghylch beth yw amrit melyn a pham mae'n cael ei roi ar dafod y baban
- Ewch ati i flasau rhai pethau melyn eraill a cheisio dyfalu beth ydyn nhw, neu fe allech chi flasau nifer o wahanol fwydydd gan nodi a ydych chi'n meddwl eu bod yn felyn neu'n sur (**Gweithgaredd 10**)

Datblygiad mathemategol

- Sawl braich sydd gan y cerflun o Ganesh?
- Sawl braich sydd gennych chi? Cyfrifwch faint o blant sydd yn eich dosbarth a faint o freichiau sydd ganddyn nhw i gyd gyda'i gilydd




Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Melys neu sur?

Ewch ati i flasw gwahanol fwydydd a nodi a ydych chi'n meddwl eu bod yn felys neu'n sur.

	Melys	Sur
jam 		
mêl 		
sudd lemon 		
siocled meddal 		
marmite 		



Tudalen 24



Tudalen 25

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Siaradwch am wahanol fathau o ddathliadau
- Pam rydych chi'n meddwl bod pobl yn hoffi dathlu gyda'i gilydd?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ewch ati i ymarfer dweud enwau'r holl gymeriadau sydd yn y stori hon
- Siaradwch ynghylch pa enw yw eich hoff enw a cheisiwch egluro pam (**Gweithgaredd 11**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- dathliadau
- arferion

Datblygiad corfforol

- Mewn parau, ewch ati i ymarfer meimio beth sy'n digwydd ym mhob un o'r seremonïau enwi y gwnaeth Aled a Siân eu canfod
- Dychmygwch eich bod yn cael un dathliad mawr a dawnsiwch gyda'ch gilydd i gerddoriaeth

Datblygiad creadigol

- Lluniwch arddangosfa dosbarth ynghylch seremonïau enwi. Fe allech chi baentio lluniau o'r gwahanol gymeriadau yn y stori ar gyfer eich arddangosfa gan nodi sut y cawson nhw eu henwau

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch am wahanol fathau o deuluoedd
- Meddyliwch pwy sydd yn eich teulu chi a thynnwch lun ohonyn nhw

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch faint o blant rydych chi wedi cwrdd â nhw yn y stori i gyd
- Sawl modryb sydd yn y stori? Sawl modryb sydd gennych chi?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Fy hoff enw

Ewch ati i ymarfer dweud yr holl enwau sydd yn y stori.

- Pa enw yw eich hoff enw, a pham?

Aled

Siân

Bethan

Peter

Mary

Sally

Nathan

Rachel

Esther

Ahmed

Salma

Fatima

Rajeev

Meena

Sita

Fy hoff enw yw



Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru

Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (3-5)

Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill;
- ystyried **dylanwad** agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol ar fywyd sydd wedi rhoi arweiniad i fywydau pobl, yn y gorffennol a'r presennol, yn lleol ac yng Nghymru;
- gofyn **cwestiynau** am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill;
- archwilio a mynegi **ystyr** mewn ffyrdd creadigol (drwy gelf, dawns, defod, arteffactau);
- rhannu eu **hymatebion personol** i gwestiynau personol, ysbrydol a moesol pwysig;
- dangos **cyfrifoldeb**, gofal a/neu bryder am bethau byw ac am y byd naturiol.



Tudalennau 4-5

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Dangos cyfrifoldeb, gofal a/neu bryder am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio pam mae crefyddau'n addysgu ynghylch rhoi i eraill. Datblygiad creadigol Dyluniwch gacen pen-blwydd i chi eich hun neu ar gyfer rhywun rydych chi'n ei adnabod.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Rhannu eu hymatebion personol i gwestiynau personol, ysbrydol a moesol pwysig. Archwilio pam mae crefyddau'n addysgu ynghylch bod yn ddiolchgar. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Siaradwch ynghylch pa mor bwysig yw dweud 'diolch' wrth i chi dderbyn anrheg pen-blwydd.
---	--



Tudalennau 6-7

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio pam mae rhoi enwau'n bwysig mewn traddodiadau crefyddol. <i>laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> Ewch ati i ymarfer ysgrifennu eich enw ac enwau eich ffrindiau.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ystyried dylanwad agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol ar fywyd sydd wedi rhoi arweiniad i fywydau pobl, yn y gorffennol a'r presennol, yn lleol ac yng Nghymru. Archwilio sut mae traddodiadau crefyddol yn dylanwadu ar yr enwau y bydd pobl yn eu cael. <i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> Chwiliwch am enghreifftiau o enwau plant o wahanol wledydd y byd a'u cysylltu â thraddodiadau crefyddol.
---	---



Tudalennau 8-9

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio pa mor bwysig yw'r eglwys i Gristnogion. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Holwch ynghylch ble mae eglwysi yn eich ardal chi.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio a mynegi ystyr mewn ffyrdd creadigol (drwy gelf, dawns, defod, arteffactau). Archwilio symbolau sy'n bwysig i Gristnogion. Datblygiad creadigol • Chwiliwch am symbolau Cristnogol a'u defnyddio wrth lunio cerdyn pen-blwydd i Peter.
---	---



Tudalennau 10-11

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio arwyddocâd dŵr mewn bedydd Cristnogol. Datblygiad corfforol Ewch ati i ymarfer arllwys dŵr yn ofalus dros ben dol.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Rhannu eu hymatebion personol i gwestiynau personol, ysbrydol a moesol pwysig. Archwilio sut rydych chi'n teimlo wrth weld baban yn cael ei fedyddio. Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu Chwaraewch rôl gwasanaeth bedydd, gan gymryd eich tro i fod yn ficer.
---	---



Tudalennau 12-13

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Cael **mewnwelediad** i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio pa mor bwysig yw'r synagog i Iddewon.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch ble mae synagogau yn eich ardal chi.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Gofyn **cwestiynau** am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio pam mae rhai bechgyn Iddewig yn gwisgo cap yr un fath â Nathan.

Datblygiad creadigol

- Holwch ynghylch y cap mae Nathan yn ei wisgo yn y llun, a gwnewch un er mwyn ei wisgo.





Tudalennau 14-15

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Gofyn **cwestiynau** am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio pam mae'r Torah yn cael ei ddarllen yn y synagog.

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer rholio a dadrolio sgrôl Torah â pharch.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Cael **mewnwelediad** i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio beth sy'n digwydd yn y seremoni Iddewig ar gyfer enwi merched.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch y seremoni Iddewig ar gyfer enwi merched.





Pages 16-17

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Cael **mewnwelediad** i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio pa mor bwysig yw'r mosg i Fwslimiaid.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch ble mae mosgiau yn eich ardal chi.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Gofyn **cwestiynau** am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio pam mae rhai merched Mwslimaidd yn gwisgo sgarff am eu pen.

Datblygiad creadigol

- Holwch ynghylch y sgarffiau mae'r merched yn eu gwisgo am eu pen yn y lluniau, a gwnewch un i'w roi am eich pen eich hun.





Tudalennau 18-19

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio beth sy'n digwydd mewn seremoni enwi Fwslimaidd, a pham mae pen y baban yn cael ei eillio. <i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> Dysgwch fwy am arferion enwi Mwslimaidd, a holwch ynghylch pam mae pen y baban yn cael ei eillio.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Dangos cyfrifoldeb, gofal a/neu bryder am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio pam mae crefyddau'n addysgu am roi i elusen. <i>Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</i> Holwch ynghylch beth mae rhoi arian i elusen yn ei olygu a dysgwch am wahanol fathau o elusennau.
---	--



Tudalennau 20-21

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio pa mor bwysig yw'r deml i Hindŵiaid. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Holwch ynghylch ble mae temlau Hindŵaidd yn eich ardal chi.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio a mynegi ystyr mewn ffyrdd creadigol (drwy gelf, dawns, defod, arteffactau). Archwilio symbolau sy'n bwysig i Hindŵiaid. Datblygiad creadigol • Chwiliwch am symbolau Hindŵaidd a'u defnyddio mewn cerdyn pen-blwydd ar gyfer Rajeev.
---	--



Tudalennau 22-23

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio pam mae amrit melyn yn cael ei roi ar dafod y baban. <i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> • Holwch ynghylch beth yw amrit melyn a pham mae'n cael ei roi ar dafod y baban.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio a mynegi ystyr mewn ffyrdd creadigol (drwy gelf, dawns, defod, arteffactau). Archwilio arwyddocâd Ganesh i Hindŵiaid. <i>Datblygiad mathemategol</i> • Sawl braich sydd gan y cerflun o Ganesh?
---	--



Tudalennau 24-25

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ystyried dylanwad agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol ar fywyd sydd wedi rhoi arweiniad i fywydau pobl, yn y gorffennol a'r presennol, yn lleol ac yng Nghymru. Archwilio sut mae Cristnogaeth, Iddewiaeth, Islam a Hindŵaeth wedi dylanwadu ar fywyd ffrindiau Aled a Siân. Datblygiad mathemategol Cyfrifwch faint o blant rydych chi wedi cwrdd â nhw yn y stori i gyd.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Dangos cyfrifoldeb, gofal a/neu bryder am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio ein cyfrifoldeb ynghylch parchu amrywiaeth crefyddol. Datblygiad corfforol Mewn parau, ewch ati i ymarfer meimio beth sy'n digwydd ym mhob un o'r seremonïau enwi y gwnaeth Aled a Siân eu canfod.
---	--